# Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

| | |
|---|---|
| **Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno):** | **Y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)**<br><br>Prif amcanion y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau Cymru wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Yn gyffredinol, bydd hyn yn golygu bod yr un rheolau a chyfreithiau yn gymwys yng Nghymru ar y diwrnod ar ôl ymadael â'r hyn oedd yn gymwys y diwrnod cyn hynny. |
| **Enw'r swyddog:** | **Sian Brown** |
| **Adran:** | **Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet** |
| **Dyddiad:** | **01/03/2018** |
| **Llofnod:** | |

## 1. Rhowch ddisgrifiad cryno o’r polisi/penderfyniad.

Ar 13 Gorffennaf 2017, cafodd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil i Ymadael â'r UE") ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r Bil i Ymadael â'r UE yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac yn darparu y bydd y corff cyfan o gyfraith yr UE (yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol) yn cael ei gorffori mewn deddfwriaeth ddomestig pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen deddfwriaeth i gynnig sefydlogrwydd a pharhad wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n hanfodol darparu sicrwydd ac eglurder i ddinasyddion a busnesau yn ystod cyfnod o newidiadau digynsail. Y ffordd orau o gyflawni hyn fyddai i Senedd y DU ddeddfu Bil sy'n berthnasol i'r DU gyfan ac sy'n parchu'r setliad datganoli. Fodd bynnag, wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno'r Bil i Ymadael â'r UE fel y cyfrwng deddfwriaethol i gyflawni'r amcan hwn ym mis Gorffennaf, roedd yn amlwg nad dyna oedd ei hymagwedd.

Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, wedi ceisio mynd i'r afael â'u pryderon drwy weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil i Ymadael â'r UE. Yn absenoldeb cytundeb, cafodd nifer o welliannau i Fil y DU eu cyhoeddi ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a fyddai, o’u pasio, yn parchu'r setliadau datganoli. Cafodd y gwelliannau hynny eu cyflwyno i'w trafod yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin lle cafwyd pleidlais arnynt, ond ni chawsant eu pasio.

Gan na chafodd y gwelliannau arfaethedig i'r Bil i Ymadael â'r UE a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru eu pasio, ac na chafodd unrhyw welliannau ystyrlon eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU, nid oes modd i Weinidogion Cymru argymell i'r Cynulliad roi cydsyniad mewn perthynas â'r Bil hwn.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn cyflwyno gwelliannau i agweddau datganoli Bil y DU yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i geisio dod i gytundeb ar welliannau i'r Bil i Ymadael â'r UE, ond mae'n rhaid iddi baratoi at y posibilrwydd na fydd y Cynulliad yn rhoi cydsyniad. Mae'r gwaith paratoi hwn wedi cynnwys datblygu y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ("y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE").

Mae dau brif amcan i'r Bil hwn. Yr amcan cyntaf, yn gyson â'r Bil i Ymadael â'r UE, yw sicrhau bod y gyfraith yn parhau i weithio'n effeithiol wrth i'r DU ymadael â'r UE. Yr ail amcan yw sicrhau bod y Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gymryd y camau deddfwriaethol angenrheidiol mewn perthynas â chyfraith yr UE sy’n gymwys o ran Cymru mewn meysydd datganoledig.

**<u>CYFRAITH CYMRU SY'N DEILLIO O'R UE</u>**

Bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, o'i basio gan y Cynulliad, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, greu corff o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar faterion datganoledig sydd wedi'u cynnwys yn y canlynol:

- Cyfraith uniongyrchol yr UE
- Deddfiadau sy'n deillio o'r UE
- Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE

Mae cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE i'w chreu drwy reoliadau a wneir o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, felly ni fydd y Bil ei hun yn arwain at unrhyw newidiadau ymarferol ar unwaith. O ganlyniad, ni fydd y Bil ei hun yn gwneud unrhyw newidiadau i gyfraith yr UE. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu sicrhau drwy reoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, a fydd ond yn cael effaith ar ymadawiad y DU â'r UE.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, amcan polisi'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw darparu bod yr un rheolau a chyfreithiau yn gymwys yng Nghymru ar y diwrnod ar ôl ymadael â'r hyn oedd yn gymwys y diwrnod cyn hynny.

Os bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael ei basio gan y Cynulliad, byddwn yn ystyried pa asesiadau effaith pellach sy'n angenrheidiol fel rhan o unrhyw raglen o is-ddeddfwriaeth dan y Bil. Mae'r dadansoddiad canlynol felly yn canolbwyntio'n bennaf ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ond yn ystyried, i'r graddau y bo'n bosibl, effeithiau posib y rhaglen o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil.

Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei adolygu (os oes angen) wrth i'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE symud ymlaen drwy gyfnodau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae unig effaith bosibl y darpariaethau ar wyneb y Bil mewn perthynas â chydraddoldeb yn ymwneud ag ymdriniaeth y Bil o Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd ("y Siarter") ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE ("yr egwyddorion cyffredinol").

*Y Siarter*

Mae'r dull gweithredu sy'n cael ei ddilyn yn y Bil i Ymadael â'r UE wedi dylanwadu ar ystod y pwerau a'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE er mwyn sicrhau bod modd i'r ddau fil weithredu wrth ochr ei gilydd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil i Ymadael â'r UE sydd i'w gweithredu'n gyffredinol. Mae un ddarpariaeth o'r fath yn ymwneud â'r Siarter. Mae cymal 5(4) o'r Bil i Ymadael â'r UE yn darparu nad yw'r Siarter yn ffurfio rhan o gyfraith ddomestig ar nac ar ôl y diwrnod ymadael.

Ar 5 Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen *Charter of Fundamental Rights of the EU Right by Right Analysis*[1] sy'n gosod barn Llywodraeth y DU am effaith y darpariaethau yn y Bil i Ymadael â'r UE sy'n ymwneud â'r Siarter. Mae'n datgan nad oedd y Siarter, ym marn Llywodraeth y DU, yn creu unrhyw hawliau newydd a'i bod yn hytrach yn cadarnhau'r hawliau sylfaenol, sy'n rhwymo mewn cyfraith, oedd eisoes yn bodoli mewn dogfen newydd, orfodol[2].

---

[1] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/664891/05122017_Charter_Analysis_FINAL_VERSION.pdf

[2] Gweler paragraff 5.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir na ddylai ymadawiad y DU â'r UE arwain mewn unrhyw ffordd at wanhau mesurau diogelu hawliau dynol, gan gynnwys hawliau yn ymwneud â chydraddoldeb. Fodd bynnag, er mwyn eglurder, sicrwydd, sefydlogrwydd a pharhad, ac i sicrhau bod modd i'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE weithredu wrth ochr y Bil i Ymadael â'r EU, nid yw'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn gwyro'n sylweddol oddi wrth y sefyllfa y darperir ar ei chyfer yn y Bil i Ymadael â'r UE.

Nid yw'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, felly, yn gwneud darpariaeth i gorffori darpariaethau'r Siarter a fyddai o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae'r Bil, fodd bynnag, yn ceisio cynnal gwerth deongliadol y Siarter ac yn gofyn am i unrhyw gwestiynau gerbron y llysoedd am ddilysrwydd, ystyr neu effaith cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE gael eu penderfynu, cyn belled ag y bo'n berthnasol, yn unol â'r Siarter.

Byddai cymryd cam pellach a cheisio corffori'r Siarter dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn debygol o fod yn aneffeithiol yn rhinwedd gweithredu cymal 5(4) o'r Bil i Ymadael â'r UE a fyddai yn taflu amheuon difrifol, o leiaf, ar ddilysrwydd a gweithrediad y darpariaethau.

Mae dadansoddiad cydraddoldeb Llywodraeth y DU yn nodi mai un elfen yn unig o saernïaeth hawliau dynol y DU yw'r Siarter, a bod y rhan fwyaf o'r hawliau sy'n cael eu diogelu yng nghyfraith yr UE hefyd i'w gweld mewn offerynnau rhyngwladol eraill y mae'r DU yn rhan ohonynt, yn fwyaf amlwg y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn").[3] Daw'r dadansoddiad i'r casgliad, am y rheswm hwn, na fydd y penderfyniad i beidio â chorffori'r Siarter mewn cyfraith ddomestig yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r safbwynt hwn wedi denu tipyn o feirniadaeth, gan gynnwys o gyfeiriad Cydbwyllgor Senedd y DU ar Hawliau Dynol sydd o'r farn bod y sail ar gyfer cyflwyno heriau yn gulach a'r camau unioni yn wannach dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 o gymharu â'r Siarter.[4]

Yn sgil y trefniadau datganoli, nid yw beirniadaeth o'r fath mor berthnasol mewn perthynas â Chymru. Caiff pwerau deddfwriaethol y Cynulliad eu llywodraethu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn arbennig cymal 108. Mae'n darparu nad yw darpariaeth Deddf gan y Cynulliad yn gyfraith os yw'n anghydnaws â'r Confensiwn, yn union yr un ffordd nad yw darpariaeth Deddf gan y Cynulliad yn gyfraith os yw'n anghydnaws â chyfraith yr UE, ac felly'r Siarter. Mae'r sail ar gyfer cyflwyno heriau a'r camau unioni sydd ar gael mewn perthynas â deddfwriaeth gan y Cynulliad a gweithredoedd Gweinidogion Cymru yr un fath boed ar sail bod yn anghydnaws â chyfraith yr UE neu â'r Confensiwn.

Bydd Gweinidogion Cymru fodd bynnag, fel sy'n ofynnol dan y gyfraith,[5] yn ystyried effaith unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE ar gydraddoldeb. Bydd y dadansoddiad a wneir yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu'r rheoliadau a, lle bo'n briodol neu'n angenrheidiol, bydd unrhyw asesiadau effaith perthnasol yn cael eu cyhoeddi.

---

3 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/629244/European_Union__Withdrawal__Bill_equality_analysis.pdf ym mharagraff 18.

4 https://publications.parliament.uk/pa/jt201719/jtselect/jtrights/774/774.pdf gweler paragraffau 9 - 12.

5 Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

*Egwyddorion Cyffredinol*

Egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yw'r prif egwyddorion cyfreithiol sy'n llywodraethu'r ffordd y mae'r UE yn gweithredu. Mae'r egwyddorion cyffredinol yn cael eu defnyddio gan Lys Cyfiawnder yr UE a llysoedd domestig wrth benderfynu ar gyfreithlondeb mesurau deddfwriaethol a gweinyddol o fewn cwmpas cyfraith yr UE, ac maent hefyd yn gymorth i ddehongli cyfraith yr UE.

Ymysg egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mae sybsidiaredd, cymesuredd a sicrwydd cyfreithiol. Mae egwyddorion cyffredinol cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu yn uniongyrchol berthnasol i'r dadansoddiad hwn.

Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn adlewyrchu'r dull gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio yn y Bil i Ymadael â'r UE ynghylch egwyddorion cyffredinol a'u cymorth i ddehongli. Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn sicrhau bod rhaid i unrhyw gwestiynau ynghylch dilysrwydd, ystyr neu effaith cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE gael eu penderfynu yn unol ag egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE.

Mae'r Bil i Ymadael â'r UE yn gwneud darpariaeth fel nad oes hawl i weithredu mewn cyfraith ddomestig ar neu ar ôl y diwrnod ymadael ar sail methiant i gydymffurfio ag unrhyw egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Ar ben hynny mae'n darparu na all llys neu dribiwnlys ddatgymhwyso neu ddirymu deddfwriaeth neu gamau gweithredu gweinyddol ar sail bod yn anghydnaws ag unrhyw un o egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Mae'r darpariaethau hyn yn y Bil i Ymadael â'r UE yn rai defnydd cyffredinol, hynny yw byddant yn gymwys i'r gyfraith yn gyffredinol. O ganlyniad, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Cyfraith i Ymadael â'r UE sy'n darparu ar gyfer effaith gyfreithiol wahanol neu wrthwynebol o bosib yn aneffeithiol neu, ar y gorau, mewn amheuaeth ddifrifol.

Fel y mae dadansoddiad cydraddoldeb Llywodraeth y DU yn amlygu, mae mesurau diogelu eisoes yn bodoli mewn cyfraith ddomestig a fydd yn cyfyngu ar unrhyw effaith darpariaethau yn y Bil i Ymadael â'r UE. Yn eu mysg mae mesurau diogelu o dan gyfraith cydraddoldeb, fel Deddf Cydraddoldeb 2010, ond hefyd Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop. O ran y Confensiwn, mae dadansoddiad cydraddoldeb Llywodraeth y DU yn nodi effaith bosib ar y camau unioni sydd ar gael mewn cyfraith ddomestig. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn darparu ar gyfer datganiad o fod yn anghydnaws pan fydd llys yn canfod bod deddfwriaeth sylfaenol yn torri amodau'r Confensiwn. Mae'r sefyllfa yn wahanol o dan y setliad datganoli gan fod unrhyw Ddeddf Cynulliad, is-ddeddfwriaeth neu weithred weinyddol gan Weinidogion Cymru sy'n anghydnaws â'r Confensiwn yn anghyfreithlon. Felly nid yw'r effaith gyfyngedig a nodir yn nadansoddiad cydraddoldeb Llywodraeth y DU mewn sefyllfa o'r fath yn gymwys mewn perthynas â deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig yng Nghymru.

## PŴER I WNEUD DARPARIAETH YN CYFATEB I GYFRAITH YR UE AR ÔL Y DIWRNOD YMADAEL A CHYDSYNIAD GWEINIDOGION CYMRU I IS-DDEDDFWRIAETH O FEWN CWMPAS CYFRAITH YR UE

Ni ragwelir y bydd darpariaethau adrannau 11, 13 ac 14 o'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Fodd bynnag, gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 11 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r

gofyniad am gydsyniad dan adrannau 13 ac 14 gael effaith o'r fath. Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd Gweinidogion Cymru, wrth arfer y swyddogaethau hyn, yn ystyried cydraddoldebau ac yn asesu unrhyw effaith bosib fesul achos. Bydd rhaid i unrhyw reoliadau hefyd gydymffurfio â Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop i fod yn gyfreithlon.

**2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o’r canllawiau ar yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i’r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

Mae'r Cynulliad wedi cytuno bod y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE i'w drin fel Bil Brys. Yn sgil natur frys y Bil, ni fu'n bosibl cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid na darparu rhestr gynhwysfawr o'r rhai fydd yn cael eu heffeithio ganddo.

Fodd bynnag, ni fydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd unrhyw effaith yn dod o reoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil. Lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol, bydd dadansoddiad yn cael ei gynnal o effaith y rheoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil. Bydd hyn yn cynnwys, fel y bo'n briodol, trafodaeth neu ymgynghori â phobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd lefel a natur unrhyw ymgynghoriad o'r fath yn dibynnu ar y rheoliadau dan sylw. Prif amcan polisi'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw sicrhau parhad. Felly mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil wedi'u llunio i gael eu harfer mewn ffordd a fydd yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod y rheolau a'r cyfreithiau sy'n gymwys cyn ymadael yn parhau i fod yn gymwys ar ôl ymadael.

**3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu’n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?**

Paratowyd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE mewn ymateb i gynnwys y Bil i Ymadael â'r UE, a phryderon penodol Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad ynghylch ymagwedd y Bil i Ymadael â'r UE at ddatganoli. Nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi ffafrio cyflwyno Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, ond mae ymagwedd Llywodraeth y DU yn y Bil i Ymadael â'r UE wedi gadael Llywodraeth Cymru heb unrhyw opsiwn ond gwneud hynny. Felly datblygwyd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE i weithredu wrth ochr y Bil i Ymadael â’r UE. Wrth ddatblygu'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, ystyriwyd gwaith Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Bil i Ymadael â'r UE. Roedd hyn yn cynnwys y Bil i Ymadael â'r UE ei hun ond, yn bwysicach fyth at ddibenion yr asesiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i nifer o ddogfennau sy'n ategu'r Bil, fel y

nodiadau esboniadol[6], y dadansoddiad cydraddoldeb[7], yr asesiad o effaith[8], memorandwm Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop[9], a'r ddogfen *Charter of Fundamental Rights of the EU Right by Right Analysis*[10].

## Dadansoddiad o'r effaith ar grwpiau gwarchodedig

Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn gwneud darpariaeth er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i gymryd y camau deddfwriaethol angenrheidiol i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n effeithiol wrth i'r DU ymadael â'r UE. Gan y bydd y camau deddfwriaethol perthnasol yn cael eu cymryd drwy reoliadau, ni fydd y Bil ei hun yn arwain at unrhyw effaith. Fodd bynnag, bydd y penderfyniadau i'w cymryd wrth ddatblygu unrhyw reoliadau yn cael eu harwain gan y darpariaethau yn y Bil. Mae'r pwerau wedi cael eu llunio yn fwriadol i sicrhau parhad. Bydd unrhyw addasiadau i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE, felly, wedi'u cyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n effeithiol.

Yn gyffredinol, mae rhai penderfyniadau penodol a wnaed wrth ddatblygu'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE a allai arwain at effaith negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â'r Siarter Hawliau Sylfaenol ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Nid yw'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn corffori darpariaethau'r Siarter sy'n ymwneud â materion datganoledig o fewn cwmpas cyfraith yr UE. Nid yw chwaith yn galluogi unigolion i gyflwyno hawliadau i'r llys ar sail torri egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Fe gafodd y penderfyniadau hyn eu gorfodi gan ymagwedd y Bil i Ymadael â'r UE a'r ffaith y byddai unrhyw ymgais i ddeddfu i'r gwrthwyneb yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn aneffeithiol yn sgil darpariaeth yn y Bil i Ymadael â'r UE, ac o ganlyniad yn achosi dryswch ac ansicrwydd.

Bydd y risg o unrhyw effaith negyddol o ganlyniad i'r penderfyniadau yn ymwneud â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn cael ei liniaru gan y mesurau diogelu presennol mewn cyfraith ddomestig. Bydd hefyd yn cael ei liniaru gan ddarpariaeth yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE sy'n sicrhau, i'r graddau y bo'n bosibl, bod darpariaethau cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn cael eu dehongli yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE gael ei roi ar waith.

6 https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/2017-2019/0079/18079en.pdf

7 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/629244/European_Union__Withdrawal__Bill_equality_analysis.pdf

8 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/628004/2017-07-12_repeal_bill_impact_assessment__1_.pdf

9 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/674640/2018-01-18_ECHR_memorandum_on_Repeal_Bill.pdf

10 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/664891/05122017_Charter_Analysis_FINAL_VERSION.pdf

Mae'r tablau canlynol yn darparu asesiad manwl o'r ffordd y gallai'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE effeithio ar grwpiau gwarchodedig.

### 4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?

| Oed | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl iau<br><br>*(Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed)* | | | X | Mae'r dadansoddiad uchod yn nodi elfennau o gyfraith yr UE na ellir eu hatgynhyrchu dan reoliadau a wneir o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE. Mae rhai o'r elfennau hyn yn cynnwys darpariaethau sydd wedi'u hanelu'n uniongyrchol at bobl iau. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn rhoi rhagor o fanylion am unrhyw effeithiau posibl. Fodd bynnag, mae Erthygl 14 (hawl i addysg) ac Erthygl 24 (hawliau'r plentyn) y Siarter Hawliau Sylfaenol yn arbennig o berthnasol.<br><br>Mae'n annhebygol y bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar bobl iau. Y rheswm am hynny, fel y gwelir yn y dadansoddiad uchod, yw bod mesurau diogelu mewn deddfwriaeth ddomestig yn diogelu hawliau'r grŵp hwn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd hyn yn cael ei adolygu, yn arbennig wrth ddatblygu unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil. |
| Pobl 18-50 oed | | | X | Mae'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE yn gymwys i bob person, beth bynnag ei oed, ar wahân i fannau lle credir bod angen targedu ymyrraeth benodol i roi sylw i unrhyw anfanteision neu faterion sy'n cael eu nodi. Ni chredir y bydd unrhyw elfen o'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn effeithio ar bobl o'r grŵp oedran hwn yn wahanol i unrhyw oedran arall. |
| Pobl hŷn (50+) | | | X | Ni fydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael unrhyw effaith ar bobl hŷn. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan eu bod wedi'u llunio i'w gwneud mewn ffordd sy'n sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith sylweddol. Lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl o dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | effaith ar bobl hŷn. Pan fo'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn ymwneud yn uniongyrchol â phobl hŷn, fel Erthygl 25 y Siarter sy'n ymwneud yn benodol â hawliau pobl hŷn, mae darpariaeth amgen ar gael mewn cyfraith ddomestig, fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, sy'n sicrhau hawliau pobl hŷn.<br><br>Beth bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau.<br><br>Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn caniatáu i'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE barhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli. O ganlyniad bydd rhaid i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil gael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE.<br><br>Fel sy'n wir gyda phobl |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | iau, mae elfennau o gyfraith yr UE wedi'u cyfeirio'n benodol at bobl hŷn. Yn arbennig, ceir darpariaeth yn Erthygl 25 y siarter sy'n ymdrin yn benodol â hawliau pobl hŷn.<br><br>Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn annhebygol o gael effaith gadarnhaol na negyddol ar bobl hŷn. Y rheswm am hynny, fel y gwelir yn y dadansoddiad uchod, yw bod mesurau diogelu mewn deddfwriaeth ddomestig yn diogelu hawliau'r grŵp hwn drwy, er enghraifft Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae mesurau diogelu hefyd yn cael eu cynnig dan Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, sy'n ffurfio rhan ganolog o'r setliad datganoli.<br><br>Fel y dywedir uchod, bydd y Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn parhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn gorfod cael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. |

### 4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Nam ar y golwg | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith ar bobl anabl. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan fod rhaid i'r rhain sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith. Beth bynnag, lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau o dan y Bil, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bobl anabl.<br><br>Pan fo'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn ymwneud yn uniongyrchol â phobl anabl, fel Erthygl 26 y Siarter sy'n darparu ar gyfer integreiddio pobl ag anableddau, mae |
| Nam ar y clyw | | | X | |
| Anabledd corfforol | | | X | |
| Anabledd dysgu | | | X | |
| Problem iechyd meddwl | | | X | |
| Namau eraill | | | X | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | darpariaeth amgen ar gael mewn cyfraith ddomestig, fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, sy'n sicrhau hawliau pobl anabl. Beth bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau.<br><br>Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn sicrhau bod y Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn parhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn gorfod cael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. |

### 4.3 Oherwydd eu rhywedd (dyn neu ddynes)?

| Rhywedd | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith wahanol ar bobl o ganlyniad i'w rhywedd. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan fod rhaid i'r rhain sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith. Beth bynnag, lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau o dan y Bil, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl o dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bobl ar sail rhywedd.<br><br>Pan fo'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn ymwneud yn uniongyrchol â rhywedd person, fel Erthygl 23 o'r Siarter sy'n gosod hawliau ac egwyddor trin dynion a menywod yn gyfartal, mae darpariaeth ar gael |
| Benyw | | | X | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | mewn cyfraith ddomestig. Er enghraifft, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop yn sicrhau hawliau pobl i beidio â dioddef camwahaniaethu ar sail eu rhywedd.<br><br>Beth bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau. Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn sicrhau bod y Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn parhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil yn gorfod cael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. |

### 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsryweddol?

| Trawsryweddol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai |
|---|---|---|---|---|

| | | | | effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith ar bobl drawsryweddol. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan fod rhaid i'r rhain sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith. Beth bynnag, lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau o dan y Bil, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bobl trawsryweddol. Mae darpariaeth ar gael mewn cyfraith ddomestig, fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop sy'n sicrhau hawliau pobl i beidio â dioddef camwahaniaethu ar sail bod yn berson trawsryweddol.<br><br>Beth bynnag, byddai |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau.<br><br>Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn sicrhau bod y Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn parhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil yn gorfod cael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. |

### 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Priodas | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith wahanol ar bobl o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ganlyniad i briodas neu bartneriaeth sifil. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan fod rhaid i'r rhain sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith. Beth bynnag, lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau o dan y Bil, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl o dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bobl ar sail statws priodasol neu bartneriaeth sifil. Pan fo'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn ymwneud yn uniongyrchol â statws priodasol neu bartneriaeth sifil, fel Erthygl 9 y Siarter sy'n ymwneud â'r hawl i briodi a dechrau teulu o fewn cyfreithiau cenedlaethol, mae darpariaeth ar gael mewn cyfraith ddomestig, fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dynol Ewrop, sy'n sicrhau hawliau pobl briod a phobl mewn partneriaeth sifil.<br><br>Beth bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau.<br><br>Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn sicrhau bod y Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn parhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil yn gorfod cael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. |
| Partneriaeth Sifil | | | **X** | Gweler uchod. |

### 4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich |
|---|---|---|---|---|

| | | | | penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith wahanol ar bobl o ganlyniad i feichiogrwydd neu famolaeth. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan fod rhaid i'r rhain sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith. Beth bynnag, lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau o dan y Bil, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl o dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bobl sy'n feichiog neu wedi rhoi genedigaeth. I'r graddau y mae naill ai'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn ymwneud yn uniongyrchol â'r |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | | | X | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | materion hyn, ceir darpariaeth mewn cyfraith ddomestig, fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, a hefyd deddfwriaeth cyflogaeth sy'n sicrhau hawliau pobl feichiog a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth.<br><br>Beth bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau.<br><br>Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn caniatáu i'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE barhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil yn gorfod cael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyffredinol cyfraith yr UE. |

**4.7 Oherwydd eu hil?**

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl o leiafrif ethnig e.e. Asiaidd, Du. | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith wahanol ar bobl o ganlyniad i'w hil. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan fod rhaid i'r rhain sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith. Beth bynnag, lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau o dan y Bil, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl o dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bobl ar sail hil. Pan fo'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn ymwneud yn |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) | | | X | |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | | | X | |
| Sipsiwn a Theithwyr | | | X | |
| Mudwyr | | | X | |
| Eraill | | | X | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | uniongyrchol â darpariaeth atal camwahaniaethu ar sail hil, fel Erthygl 21 y Siarter sy'n cyfeirio at yr hawl i beidio â dioddef camwahaniaethu ar sail hil, mae darpariaeth ar gael mewn cyfraith ddomestig, fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, sy'n sicrhau hawliau pobl i beidio â dioddef camwahaniaethu ar sail hil. Beth bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau.<br><br>Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn sicrhau bod y Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn parhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil yn gorfod cael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. |

### 4.8 Oherwydd eu crefydd a’u cred neu ddiffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch) | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith wahanol ar bobl o ganlyniad i'w crefydd, cred neu ddiffyg cred. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan fod rhaid i'r rhain sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith. Beth bynnag, lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau o dan y Bil, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bobl ar sail crefydd, cred neu ddiffyg cred. Pan fo'r Siarter neu egwyddorion |
| Cred e.e. Dyneiddwyr. | | | | |
| Diffyg cred | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyffredinol cyfraith yr UE yn ymwneud yn uniongyrchol â chrefydd, cred neu ddiffyg cred person, fel Erthygl 22 y Siarter sy'n ymwneud â pharchu amrywiaeth diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol person, mae darpariaeth ar gael mewn cyfraith ddomestig, fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, sy'n sicrhau hawliau pobl mewn perthynas â'u crefydd, cred neu ddiffyg cred.<br><br>Beth bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau.<br><br>Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn sicrhau bod y Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn parhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil yn gorfod cael ei dehongli, i'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. |

**4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?**

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Dynion hoyw | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith wahanol ar bobl o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol. Gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil gael effaith ond, gan fod rhaid i'r rhain sicrhau parhad cyfraith bresennol yr UE, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith. Beth bynnag, lle bo'n briodol, bydd unrhyw effeithiau yn cael eu hasesu wrth ddatblygu rheoliadau a'u hystyried fel bo angen.<br><br>O ran cwmpas y pwerau o dan y Bil, a'r ffaith na fydd darpariaeth gyfatebol i'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol yr UE yn bosibl dan y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ni chredir y bydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Pan fo'r |
| Lesbiaid | | | X | |
| Deurywiol | | | X | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn ymwneud yn uniongyrchol â chyfeiriadedd rhywiol person, fel Erthygl 21 y Siarter sy'n ymwneud â'r hawl i beidio â dioddef camwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol, mae darpariaeth ar gael mewn cyfraith ddomestig, fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, sy'n sicrhau'r hawliau hynny.<br><br>Beth bynnag, byddai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer corffori'r Siarter neu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE mewn cyfraith ddomestig yn aneffeithiol yn sgil y Bil i Ymadael â'r UE, neu byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath ar y gorau.<br><br>Ar ben hynny, bydd darpariaethau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn sicrhau bod y Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn parhau i gael eu defnyddio i helpu gyda'r dehongli, gan olygu y bydd cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sy'n cael ei chreu dan y Bil yn gorfod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cael ei dehongli, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. |

**4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar ddod o hyd i wybodaeth bellach am Hawliau Dynol.***

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | | | X | Ni fydd y Bil ei hun yn cael unrhyw effaith ar hawliau dynol person. Byddai'n bosibl i'r rheoliadau gael effaith, ond bydd y gwaith o ddatblygu unrhyw reoliadau yn cynnwys ystyriaeth fanwl o unrhyw effaith bosib ac, yn unol â'r cyfyngiad ar bwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n anghydnaws â Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop, bydd unrhyw effeithiau a nodir yn cael eu lliniaru er mwyn sicrhau bod y rheoliadau yn gydnaws â'r Confensiwn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | O ran peidio â chorffori'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn uniongyrchol o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, mae nifer o'r darpariaethau sydd i'w gweld yn y Siarter yn cael eu hadlewyrchu yn y Confensiwn. Mae hyn hefyd yn wir am rai o egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Un o nodweddion y setliad datganoli yw bod unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf neu is-ddeddfwriaeth gan y Cynulliad yn anghyfreithlon os yw'n anghydnaws â Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw gamau deddfwriaethol sy'n cael eu cymryd mewn Deddf neu is-ddeddfwriaeth gan gan y Cynulliad yn ddarostyngedig i'w herio gan bobl y mae eu hawliau dynol wedi'u tramgwyddo. |

***Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau (ac eithrio rhai dibwys), cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig, llenwch Ran 2.***

***Os na cheir unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol, neu os ceir rhai dibwys yn unig, ewch yn syth i Ran 2 a llofnodwch yr Asesiad.***

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

### 1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol

| **1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?**<br><br>Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a luniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig? |
|---|
| Nid yw'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn gwneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl ymadael. Bydd y newidiadau hyn yn destun rheoliadau a wneir dan y Bil. Wrth wneud y rheoliadau hyn, bydd cyfyngiadau penodol yn gymwys er mwyn sicrhau parhad, ond bydd penderfyniadau polisi penodol yn ofynnol. Wrth wneud y penderfyniadau polisi hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a bydd gofyn iddynt ystyried sut y gellid gwneud y dewisiadau hynny mewn ffordd sy'n datblygu neu hyrwyddo cyfle cyfartal.<br><br>Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE hefyd yn sicrhau bod rhaid i unrhyw gwestiynau ynghylch dilysrwydd, ystyr neu effaith cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE sydd wedi'i chynnwys mewn rheoliadau wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru dan bwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil gael eu penderfynu yn unol â Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE, i'r graddau y bo'n bosibl, yn unol â darpariaethau'r Siarter ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE. Drwy sicrhau bod y Siarter i'w ddefnyddio hefyd i helpu gyda'r dehongli, mae Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn mynd ymhellach na Bil y DU. |
| **1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?** |
| Gweler uchod. |
| **1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?** |
| Gweler uchod. |

## 2. Cryfhau’r polisi

| **2.1 Os yw’r polisi’n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o’r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw’r rhesymau am hyn?**<br><br>**Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?** |
|---|
| Gan mai prif amcanion y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw darparu sefydlogrwydd a sicrwydd ynghylch ymadawiad y DU â'r UE, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau gwarchodedig. Bydd unrhyw effeithiau negyddol wrth wneud rheoliadau dan y Bil yn cael eu nodi a bydd camau'n cael eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau o'r fath i'r graddau y bo hynny'n bosibl.<br><br>Nid yw'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn corffori Siarter nac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yn uniongyrchol mewn cyfraith ddomestig. Ystyriwyd camau y gellid eu cymryd i roi sylw i hyn, ond byddai darpariaeth ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU yn golygu bod unrhyw ymgais o'r fath yn aneffeithiol, neu ar y gorau y byddai amheuaeth ddifrifol am effaith darpariaeth o'r fath yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd. Er mwyn osgoi'r dryswch anochel y byddai camau o'r fath yn ei achosi, a fyddai ynddo'i hun yn medru arwain at effeithiau negyddol ar hawliau pobl, ni chafodd darpariaeth o'r fath ei chynnwys. Bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i unrhyw reoliadau gael eu gwneud dan y Bil, a bydd unrhyw fylchau a nodir yn cael eu hystyried wrth i Weinidogion Cymru benderfynu pa gamau pellach y gellid eu cymryd. |

| **2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.**<br><br>**(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i’r polisi, rhaid newid neu adolygu’r polisi.)** |
|---|
| Amherthnasol |

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

| **Sut byddwch yn mynd ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**<br><br>Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgyngoriadau, monitro penodol ac ati). |
|---|
| Bydd yr effeithiau sy'n parhau i gael eu creu gan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael eu monitro drwy asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, lle bo angen, ar reoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil. |
| Bydd canlyniadau pob asesiad o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. |
| |

## 4. Datganiad

***Dilëer fel y bo'n briodol:**

***Mae'r/Nid yw'r polisi yn effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb**

| **Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** |
|---|
| Enw: |
| Sian Brown |
| Adran: |
| OFMCO |
| Dyddiad: |
| 01/03/2018 |
| Llofnod: |
| |
| **Pennaeth Adran (Llofnod)** |
| Enw: |
| Robert Parry |
| Teitl swydd ac adran: |
| OFMCO |
| Dyddiad: |
| 02/03/2018 |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiad Adolygu: |